



Adroddiad yr Ymddiriedolwr
Y Cyfarfod Mawr (CCB)
Dydd Llun 2 Rhagfyr, 6pm
Prif Ystafell Undeb y Myfyrwyr

Mae'n bleser gan yr ymddiriedolwyr gyflwyno eu hadroddiad blynyddol a datganiad ariannol cyfunol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2019.

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMPA) yn undeb myfyrwyr o fewn ystyr Deddf Addysg 1994. Mae UMPA wedi ymrwymo i fuddiannau addysgol a lles ei aelodau

Strwythur, llywodraethiant a rheolaeth

Prif amcan UMPA yw hyrwyddo addysg myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth er budd y cyhoedd. Roedd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, am y cyfnod a ddaeth i ben 30 Mehefin 2019, yn gyd-gymdeithas anghorfforedig, a chaiff ei lywodraethu gan gyfansoddiad yr Undeb dyddiedig 26^{ain} Mehefin 2012. Mae cyfranddaliad y cwmni, a gedwir mewn ymddiriedolaeth ar ran yr Undeb, wedi'i gofrestru i'r Llywydd. Mae'r cwmni masnachu yn gwmni cofrestredig gyda Thŷ'r Cwmnïau. Cyflwynodd yr Undeb gais am statws Elusennol, ac mae'n parhau i feddu ar y statws hwnnw ers mis Ionawr 2013 o dan yr enw Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMPA).

Nid oes gofyniad i'r cyfrifon cyfunol sy'n cael eu hadolygu yn yr adroddiad hwn gael eu harchwilio. Fodd bynnag, dewis yr Undeb yw, er budd ei aelodau, archwilio'r cyfrifon hyn a pharatoi datganiadau ariannol cyfunol blynyddol sy'n unol â chyfansoddiad yr Undeb. Mae datganiad o weledigaeth Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth fel a ganlyn: "Rydym yn credu y dylai myfyrwyr Aber gael taith anhygoel fel myfyrwyr. Dylen nhw fod yn hapus ac yn iach, a dylen nhw feddu ar rym, gan adael gyda ffrindiau am oes a dyfodol disglair o'u blaenau." Ein datganiad o fwiad yw: "Rydyn ni am i fyfyrwyr Aber garu bywyd myfyrwyr a bod yn barod am unrhyw beth."

a) Cyfansoddiad

Prif ddogfen lywodraethu'r Undeb yw ei Gyfansoddiad, a gytunwyd gan yr aelodau mewn refferendwm traws-gampws a'i gadarnhau gan Bwyllgor Siarter y Brifysgol, y Senedd a'r Cyngor. Mae copïau o'r Cyfansoddiad ar gael o www.umaber.co.uk

b) Ymddiriedolwyr

Roedd y bwrdd ar gyfer 2018/19 yn cynnwys 12 o aelodau; 5 Ymddiriedolwr oedd yn swyddogion sabothol etholedig, 2 ymddiriedolwr a etholwyd o blith y myfyrwyr, a 5 ymddiriedolwr allanol a ddewiswyd. Mae'r swydd yn para am un flwyddyn yn achos ymddiriedolwyr etholedig, a 4 blynedd yn achos ymddiriedolwyr allanol.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gyfeiriad strategol, llywodraethiant a chynladwyedd UMPA. Mae'n ofynnol i swyddogion gymryd blwyddyn sabothol i ffwrdd o'u hastudiaethau, ac maent yn derbyn cyflog gan yr Undeb yn ystod y cyfnod hwnnw.

Gwirfoddolwyr yw'r holl ymddiriedolwyr eraill, a gallant hawlio treuliau rhesymol i'w galluogi i ymgymryd â'u dyletswyddau. Etholir Swyddogion a Myfyrwyr sy'n Ymddiriedolwyr drwy bleidlais gyfrinachol gan yr aelodau bob blwyddyn; byddant fel arfer yn gwasanaethu am flwyddyn yn y swydd, ond gallant fod yn y rôl am ail flwyddyn os cânt eu hailethol. Penodir Ymddiriedolwyr Allanol yn unol â chyfansoddiad yr Undeb (cymal 52-54).

Ar ôl eu penodi, bydd yr holl ymddiriedolwyr yn cael amrywiaeth o wybodaeth fel rhan o broses sefydlu. Caiff ymddiriedolwyr eu briffio am eu rhwymedigaethau cyfreithiol a



chyfrifoldebau eraill a ddaw yn sgil bod yn ymddiriedolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion yn newydd i'r Bwrdd bob blwyddyn neu bob dwy flynedd, felly maent yn ymgymryd â chyfnod hyfforddi mwy dwys. Mae'r hyfforddiant hwn yn dechrau ar ôl iddynt gael eu hethol, a chyn iddynt ddechrau eu cyfnod yn y swydd, er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac y gallant gyflawni'u dyletswyddau hyd eithaf eu gallu cyn gynted â phosibl. Maent yn mynychu sesiynau hyfforddi ar hanes llywodraethiant yn UMPA, eu cyfrifoldebau cyfreithiol fel ymddiriedolwyr, sesiynau briffio ar faterion allweddol a phenderfyniadau a wnaed gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr; maent hefyd yn derbyn hyfforddiant ar sut i ddelio â gwrthdaro posib o ran buddiannau. Mae'r Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cyfarfod o leiaf 4 gwaith y flwyddyn. Darperir pob ymddiriedolwr â chopi o Ganllawiau'r Comisiwn Elusennau i Ymddiriedolwyr, a chânt eu cyflwyno i weithgareddau'r Undeb yn ystod cyfnod trosglwyddo'r awenau neu gan y Bwrdd. Darperir hyfforddiant i ymddiriedolwyr ac mae ganddynt yr opsiwn i fynychu hyfforddiant gloywi sgiliau yn flynyddol.

Mae UMPA yn gweithredu ar egwyddorion democrataidd, gyda'r pum Swyddog Sabothol etholedig yn gyfrifol am weithredu Polisi. Yn ystod y flwyddyn gall aelodau gyflwyno syniadau ar gyfer newid, safbwyntiau gwleidyddol neu ddatblygiad i Gyngor yr Undeb. Yna cynhelir pleidlais ar y syniadau hyn gan aelodaeth y Cyngor sy'n cynnwys:

- Swyddogion Llawn-amser
- Swyddogion Rhan-amser
- Cynrychiolwyr Academaidd ac Athrofa
- Cynrychiolwyr Parth (dau o bob parth)
- Pwyllgor Gwaith UMCA
- Cadeiryddion, ysgrifenyddion a thrysoryddion (neu gyffelyb) o Glybiau Chwaraeon a Chymdeithasau.

c) Staffio

Mae'r Undeb yn cyflogi staff parhaol i sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cael eu rheoli'n effeithiol, yn ogystal â gweithredu'r penderfyniadau polisi gyda'r Ymddiriedolwyr ar ran yr aelodaeth. Mae awdurdod wedi'i ddirprwyo, drwy'r Prif Weithredwr, ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol ac atebolrwydd o fewn adrannau'r Undeb, yn unol â strwythur y mudiad.

Ar hyn o bryd mae Undeb y Myfyrwyr yn cyflogi 13 aelod staff parhaol.

Uwch Dîm Rheoli

- Patricia McGrath, Prif Weithredwr
- Eleri Roberts, Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Catrin Hopkins, Rheolwr Cyllid
- Gavin Allen, Rheolwr Cyfleoedd Myfyrwyr
- Martin Dodd, Rheolwr Cymorth & Chynrychiolaeth Myfyrwyr

Yn ogystal â gwaith yr ymddiriedolwyr sy'n swyddogion sabothol, mae'r Ymddiriedolwyr yn dirprwyo rheolaeth yr elusen o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli.

ch) Perthynas â Phartïon Cysylltiedig

Dan Ddeddf Addysg 1994, mae gan Brifysgol Aberystwyth ddyletswydd statudol i sicrhau bod UMAber yn gweithredu'n deg a democrataidd a'i fod yn cael ei ddal i gyfrif am ei reolaeth ariannol.

Mae'r Undeb yn parhau i dderbyn cymorth ariannol gwerthfawr gan Brifysgol Aberystwyth ('y Brifysgol') ac roedd y grant bloc yn 2018/19 yn £700,000 (2017/18: £700,000). Hefyd,



cyfrannodd y Brifysgol £50K ychwanegol i gynorthwyo gweithgareddau Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS). Mae Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu mewn rhan o adeilad sy'n eiddo i'r Brifysgol ac mae'r Brifysgol hefyd yn darparu gwasanaeth cyflogres a'r porthorion. Mae'r gefnogaeth hon yn rhan annatod o'r berthynas rhwng y Brifysgol a'r Undeb. Yn dilyn trosglwyddo gwasanaethau masnachol i'r Brifysgol ym Medi 2016, mae Undeb y Myfyrwyr yn dibynnu ar gymorth ariannol gan y Brifysgol, fod bynnag nid oes rheswm dros gredu na fydd y gefnogaeth hon yn parhau hyd y gellir rhagweld. Mae angen hysbysu'r Brifysgol ynglŷn ag unrhyw newidiadau yn llywodraethiant yr Undeb, y ogystal â darparu adroddiadau rheolaidd ar weithgareddau, rheolaeth a sefyllfa ariannol yr Undeb. Cyflwynir y rhain i'r Brifysgol mewn gwahanol bwyllgorau megis y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a'r Cyngor. Mae Swyddogion Sabothol a staff yr Undeb yn eistedd ar wahanol bwyllgorau'r brifysgol.

d) Rheoli risg

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Uwch Dîm Rheoli wedi archwilio'r prif risgiau strategol, busnes a gweithredol a wynebwr gan yr Undeb. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r prif risgiau strategol a wynebwr gan UMPA o leiaf unwaith y flwyddyn. Lle bo'n briodol, mae systemau neu weithdrefnau wedi cael eu sefydlu i liniaru'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Mae risgiau cyllidebol ac i reolaeth fewnol yn cael eu lleihau drwy gynnal gweithdrefnau ar gyfer awdurdodi unrhyw drafodion a phrosiectau. Mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch staff, gwirfoddolwyr a chyfranogwyr ar gyfer pob gweithgaredd a drefnir gan yr Undeb. Adolygir y gweithdrefnau hyn o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion yr elusen. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o unrhyw newidiadau yn y gofrestr risg ac mae'n gweithredu'n unol â hynny.

Yn ystod y flwyddyn hon, rydyn ni wedi canolbwyntio ar wella dealltwriaeth a rheolaeth ariannol ar draws y mudiad, yn ogystal â gwella rheolaeth o amgylch diogelu data.

Amcanion a gweithgareddau

Prif amcanion yr Undeb yw bod o fudd i'w aelodau a'i staff cyfredol, a'r rheiny a ddaw yn y dyfodol, drwy hyrwyddo eu haddysg. Mae UMPA yn cyflawni hyn drwy:

- hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn ystod eu cwrs astudiaeth, yn ogystal â chynrychioli, cynorthwyo a chynghori myfyrwyr;
- bod yn sianel gynrychiolaeth gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Aberystwyth ac unrhyw gyrff allanol eraill; a
- darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden, yn ogystal â fforymau ar gyfer trafodaeth er mwyn datblygiad personol myfyrwyr.

Wrth ddilyn ein nodau ac amcanion a darparu amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer yr aelodau, mae UMPA bob amser yn ceisio:

- sicrhau bod amrywioldeb ei aelodaeth yn cael ei gydnabod a bod mynediad cyfartal ar gael i'w holl aelodau, beth bynnag fo'u tarddiad neu dueddfryd;
- dilyn ei nodau ac amcanion yn annibynnol o unrhyw blaid wleidyddol neu grŵp crefyddol
- hyrwyddo cyfleoedd cyfartal drwy weithredu cadarnhaol o fewn y gyfraith i hwyluso cyfranogiad grwpiau y camwahananiaethir yn eu herbyn gan gymdeithas.

Cennad: Rydyn ni am i fyfyrwyr Aber garu bywyd myfyrwyr a bod yn barod am unrhyw beth.



Gweledigaeth: Credwn y dylai myfyrwyr Aber gael taith anhygoel fel myfyrwyr. Dylen nhw fod yn hapus ac yn iach, a dylen nhw feddu ar rym, gan adael gyda ffrindiau am oes a dyfodol disglair o'u blaenau.

Gwerthoedd: Wedi'i lunio gan fyfyrwyr - myfyrwyr Aber sydd wrth y llyw, Gyfeillion - rydym am i chi fod o gwmpas, Didwyll - rydym yn ei dweud hi fel y mae, Hollgynhwysol - mae pawb yn bwysig, Cymreig - mae hynny'n amlwg

Cyflawniadau a pherfformiad

Datblygwyd strategaeth newydd ar gyfer 2017-2020 drwy gydol y flwyddyn 2016-17 ac roedd yr UM yn gweithredu ar set o flaenoriaethau strategol dros-dro, yn seiliedig ar egwyddorion y cynllun hwnnw, ar gyfer 2018-19. Yn 2018-19, roedd 62% o'r myfyrwyr naill ai wedi pleidleisio mewn etholiad, yn rhan o Glwb neu Gymdeithas neu'n Gynrychiolydd Academiaidd.

Darparodd UMPA amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau ar gyfer myfyrwyr, gan gynnwys:

- **Gwasanaeth cynghori:** Rydym yn parhau i ddarparu gwasanaeth arbenigol i'n haelodau ym maes tai, arian a materion academiaidd. Er gwaethaf gostyngiad oedd yn cyfateb i 1 aelod staff llawn-amser, llwyddodd y Gwasanaeth Cynghori i roi cymorth i 250 o fyfyrwyr yn uniongyrchol drwy waith ar achosion. Yn ogystal, darparodd y Gwasanaeth gyngor ac arweiniad ar-lein ar faterion myfyrwyr allweddol; cymerodd ran mewn nifer o weithgareddau allgymorth fel diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, yn ogystal â chanolbwyntio ar brosesau a gweithdrefnau mewnol.

- **Cyfleoedd i Fyfyrwyr:** Roedd dewis o 150 o glybiau a chymdeithasau yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer datblygu cymdeithasol a sgiliau. Cofrestrodd 3,324 o fyfyrwyr i ymuno â chlwb neu gymdeithas UMPA yn ystod y flwyddyn (42% o boblogaeth y myfyrwyr). Rydym hefyd wedi cefnogi gwirfoddoli dan arweiniad myfyrwyr, gan helpu dros 600 o fyfyrwyr i arwain eu grwpiau myfyrwyr. Mae'r tîm Cyfleoedd yn cynnwys tri aelod o staff, ac mae'n darparu cefnogaeth, cyngor a chymorth ar gyfer cynnal gweithgareddau'r ddiogel, yn enwedig o ran iechyd a diogelwch, recriwtio, cyfathrebu, cyflawniad a chyllid, gan gynnwys codi arian a datblygu. Eleni datblygwyd llwyfan ar-lein ar gyfer broceriaeth a chofnodi oriau gwirfoddoli a sgiliau.

- **Democratiaeth a Chynrychiolaeth:** Cefnogwyd 225 o Gynrychiolwyr Cwrs ac Athrofa gyda mentrau hyfforddi a chyfathrebu newydd, a sbardunwyd prosiect partneriaeth manwl i archwilio a datblygu mentrau cynrychiolaeth myfyrwyr yn y dyfodol ar lefel cwrs ac athrofa. Pleidleisiodd 2,813 o fyfyrwyr yn ein prif etholiadau, oedd yn gynydd o 35% yn y flwyddyn flaenorol i 37% o boblogaeth y myfyrwyr (un o'r canrannau pleidleisio etholiadol mewn Undeb Myfyrwyr uchaf yn y DU).

Rydym wedi parhau i roi cymorth i fyfyrwyr fynd ati i ymgyrchu dros newid yn y mudiad, yn y Brifysgol ac yng nghymuned y myfyrwyr a'r gymuned leol.

- **Cyfleusterau:** Mae agen ailwampio ac ailaddurno ar y rhan fwyaf o adeilad Undeb y Myfyrwyr, fodd bynnag, aethpwyd ati i adnewyddu'r toiledau yn 2018-19. Gwnaed gwaith i wella hygyrchedd i fyfyrwyr anabl ym mis Gorffennaf ac Awst 2016 a gwnaed rhywfaint o ailaddurno yn y cyntedd. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi dechrau gweithio gyda'r Brifysgol ar gynllun adnewyddu sylweddol ar gyfer yr adeilad yn y dyfodol. Roedd gwaith pellach ar y drysau blaen ar y gweill ar gyfer Gorffennaf 2017, ond fe'i gohiriwyd yn yr achos cyntaf oherwydd cyfyngiadau cyllido'r Brifysgol, ac yna eto yn 2018-19 oherwydd y cynlluniau ar gyfer gwaith adnewyddu mwy sylweddol yn y tymor hir.

- **Gwobrau:** Roedd Undeb y Myfyrwyr a staff yr UM yn falch iawn o dderbyn y gwobrau a'r gydnabyddiaeth ganlynol:

- Gwobr Dydd Gŵyl Dewi Prifysgol Aberystwyth am Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle



- Achrediad Undebau Myfyrwyr o Safon UCM

• **Prosiectau'r Swyddogion:** Yn 2018-19, bu'r Swyddogion yn gweithio ar amryw o flaenoriaethau gan gynnwys:

- Ailagor Pantycelyn erbyn 2019
- Costau Cudd ar Gyrsiau
- Iechyd Meddwl
- Ariannu Chwaraeon
- Urddas a Pharch
- Menywod mewn Chwaraeon
- Adnewyddu'r Adeilad

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn gweithio i gyflawni'r nodau ac amcanion a osodwyd allan yn ein Cynllun Strategol ar gyfer 2017-2020:

Rydyn ni'n addo y byddwn ni'n tyfu gyda'n gilydd fel teulu Aber

- Perthynas â'r Undeb. Bydd myfyrwyr yn cysylltu gwirfoddoli, aelodaeth o glybiau neu gymdeithasau, arweinyddiaeth a phrofiadau o fod yn Gynrychiolydd Academaidd ag Undeb y Myfyrwyr.
- Hyrwyddo a rhoi cymorth i grwpiau myfyrwyr greu digwyddiadau, gweithgareddau, cyfryngau ac ymgyrchoedd, yn ogystal â chynyddu nifer y cyfleoedd i gyfranogi, arwain a dysgu.
- Byddwn ni'n helpu myfyrwyr i ganfod, tyfu a dathlu eu cymunedau amrywiol
- Bydd myfyrwyr yn chwarae rôl yng nghymuned ehangach Aberystwyth

Rydyn ni'n addo mai chi gaiff y gair olaf

- Bydd myfyrwyr yn deall beth yw'r Undeb, eu bod nhw'n aelodau ac y byddan nhw'n llunio gweithgareddau a pholisi UMAber.
- Bydd myfyrwyr yn dylanwadu ac yn llunio eu haddysg a'r profiad ehangach o fywyd yn y brifysgol.
- Ni fydd yr arbenigwyr ar fyfyrwyr Aber - byddwn ni'n gwybod sut maen nhw'n ymddwyn, beth maen nhw'n eu gwerthfawrogi a'r hyn sydd ei angen/eisiau arny'n nhw.
- Bydd arweinwyr myfyrwyr yn llais hyderus a grymus ar ran myfyrwyr Aber

Rydyn ni'n addo y byddwn ni'n eich helpu i fod mor hapus ac iach â phosib

- Y Gwasanaeth Cynghori fydd y brif ffynhonnell ar gyfer canfod cyngor ar fywyd myfyrwyr a chymorth i fyfyrwyr wneud penderfyniadau hysbys.
- Perthynas gref â phartneriaid lleol, asiantaethau cymorth a rhanddeiliaid
- Helpu i sicrhau iechyd meddwl a chorfforol da ymysg myfyrwyr.
- Hyrwyddo hawliau myfyrwyr ac ymladd anghyfiawnder.

Rydyn ni'n addo helpu i'ch paratoi at eich antur nesaf

- Bydd Gwirfoddoli UMAber yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd a fydd yn galluogi myfyrwyr i gyfoethogi eu hamser yn y brifysgol yn ogystal â bod o fudd i gymuned y myfyrwyr ac i Aberystwyth yn ehangach.
- Bydd ein holl fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli'n gallu nodi a mynegi sut mae eu gweithgaredd yn cyfrannu at eu datblygiad a'r camau nesaf.
- Bydd myfyrwyr wedi paratoi at fywyd ar ôl y Brifysgol a byddan nhw'n derbyn cefnogaeth ardderchog i gymryd y camau nesaf.



Amlinellir targedau a chatau gweithredu sy'n manylu ar sut y byddwn yn cyflawni yn erbyn ein Cynllun mewn cynllun gweithredu blynyddol bob blwyddyn.